ACADEMI HEDDWCH
PEACE INSTITUTE

Mawrth, 2015

Annwyl Gyfeillion

Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute

Mae ymgyrch wedi bod yn mynd rhagddi ers cryn amser i sefydlu academi heddwch yng Nghymru. Dyma fyddai'r gyntaf o'i math yn y DU, ond mae sawl un yn bodoli ledled y byd. Diben y llythyr hwn yw rhoi cefndir cryno a throsolwg o'r sefyllfa fel ag y mae hi, gan amlinellu sut gallai fod yn fuddiol i'ch sefydliad fod yn rhan o'r fenter hon.

Cefndir:
Cafodd y ddeiseb wreiddiol yn galw ar y Cynulliad Cenedlaethol i ymchwilio i botensial ac ymarferoldeb academi heddwch i Gymru yn ymwneud â heddwch a hawliau dynol ei llofnodi gan 1,525 o bobl a'i chyflwyno i'r Pwyllgor Deisebau ym mis Medi 2009. Wedi hynny, cafwyd ymgynghoriad cyhoeddus a ddenodd ymatebion gan 56 o bobl a sefydliadau – yr ymateb mwyaf erioed i ymgynghoriad gan y Pwyllgor Deisebau. Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebion hyn yn rhai cadarnhaol.

Ym mis Hydref 2013, lluniodd y Pwyllgor Deisebau adroddiad (P-03-262) yn cefnogi'r egwyddor o sefydlu Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute, ac yn argymell i Lywodraeth Cymru hwyluso mwy o drafod rhwng y grwpiau buddiant yn y gymuned academaidd a'r gymdeithas ddinesig er mwyn gwneud gwaith cwmpasu pellach. Ar ben hyn, dywedodd y Pwyllgor Deisebau y gallai corff o'r fath helpu i annog heddwch yn ei ystyr ehangaf yng Nghymru, a chyfrannu at waith y Cynulliad a'r Llywodraeth. Mae darnau o adroddiad y Pwyllgor Deisebau i'w gweld yn y pecyn gwybodaeth sydd ynghlwm.

Ym mis Mawrth 2014, trafododd y Senedd argymhellion y Pwyllgor deisebau, a derbyniodd yr egwyddor o sefydlu Academi Heddwch Cymru/Wales Peace Institute o dan yr amod bras bod angen gwneud rhagor o waith manwl ar ba mor ymarferol y byddai.

Y sefyllfa bresennol:
Ar sail adroddiad ffafriol y Pwyllgor Deisebau ac ymateb ffafriol y Senedd, sefydlwyd grŵp llywio Menter Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute Initiative, sydd wedi cymryd camau da tuag at sefydlu'r academi heddwch. Mae hyn yn cynnwys sefydlu elusen fach at ddibenion codi arian a datblygu'r cyfansoddiad, sy'n cynnwys y nodau a'r amcanion, ac argymell strwythur i'r academi heddwch wedi iddi gael ei sefydlu. Hefyd, mae'r Fenter wedi cychwyn darn gwrthrychol o ymchwil i'r ochr filwrol yng Nghymru er mwyn rhoi sylfaen gadarn i'r sefydliad pan gaiff ei sefydlu, ac mae'n un o bartneriaid y prosiect 'Cymru dros Heddwch', a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri a'i harwain gan Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru.

Mae rhaglen waith o brosiectau'n cael ei datblygu ar gyfer yr Academi wedi iddi gael ei lansio'n ffurfiol, a fydd yn y Gwanwyn 2015 gobeithio, ac rydyn ni hefyd yn edrych ar feysydd lle gall Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute ychwanegu gwerth at waith Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. Mae blaenoriaethau eraill yn

cynnwys cwblhau cyfansoddiad, trefn lywodraethu a chyllid craidd y corf newydd, a chynnwys darpar bartneriaid, rhanddeiliaid a chefnogwyr.

Sut gallwch chi gymryd rhan:
Rhan hanfodol o symud tuag at sefydlu academi heddwch yng Nghymru fydd ffurfio partneriaethau gyda chyrff yn y gymuned academaidd a'r gymdeithas sifil, a all gyfrannu yn ei gwaith drwy ddatblygu prosiectau ar y cyd er enghraifft, neu enwebu ymddiriedolwyr ar gyfer yr Academi / Institute. Rydym yn rhagweld y bydd yr Academi / Institute yn elfen bwysig o fywyd yng Nghymru ac yn awdurdod ar faterion yn ymwneud â heddwch a hawliau dynol yng Nghymru a thu hwnt, gan ddarparu gwybodaeth bwysig i Lywodraeth Cymru a chymdeithas yn gyffredinol. Efallai y bydd gan eich sefydliad ddiddordeb hefyd mewn cefnogi'r sefydliad heddwch yn ariannol.

Rydyn ni'n gobeithio bod y syniad o sefydlu'r academi heddwch o ddiddordeb i chi, ac felly rydym yn anfon y pecyn hwn sy'n cynnwys gwybodaeth gychwynnol bwysig. Hoffem gysylltu â chi yn yr wythnosau i ddod i drafod ymhellach beth gallai'r bartneriaeth fod, a sut gallai fod o fudd i'r ddwy ochr.

Rydym yn edrych ymlaen at glywed gennych, ac at drefnu cyfarfod i drafod yn fanwl sut gallwn ni gydweithio.

Yn gywir

Jane Harries
Ysgrifennydd

Menter Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute Initiative

c/o 42 St Patrick's Drive
Bridgend
CF31 1RP
ahc.wpi@gmail.com

077200 87132

March, 2015

Dear Colleagues

Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute

There has been an active campaign to establish a peace institute in Wales for some considerable time. This would be the first of its kind in the UK, although many such institutes exist across the world. The purpose of this letter is to provide some brief background and an overview of where we are now, and to outline how being part of this initiative could be beneficial to your organisation.

Background:
The original petition calling on the National Assembly to investigate the potential and the practicality of Wales having a peace institute concerned with peace and human rights was signed by 1,525 people and presented to the Petitions Committee in September 2009. A public consultation followed and attracted responses from 56 people and organisations – the largest response ever to a Petitions Committee consultation. These responses were overwhelmingly positive.

In October 2013 the National Assembly's Petitions Committee produced a report (P-03-262), supporting the principle of establishing an Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute, and recommending that the Welsh Government facilitate further discussions between interested parties within the academic community and civic society to enable further scoping work to be undertaken. The Petitions Committee further stated their view that such a body could help contribute to the development of peace in its broadest sense within Wales, and would contribute to both the work of the Assembly and the Government. Excerpts from the Petitions Committee report are included within the accompanying information pack.

In March 2014 the Senedd (the Welsh Assembly) debated the recommendations of the Petitions Committee and accepted the principle of setting up the Academi Heddwch Cymru/Wales Peace Institute with the broad proviso that further detailed work on its practical feasibility needed to be carried out.

Where we are now:
Based on the favourable report of the Petitions Committee and its acceptance by the Senedd, the Menter Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute Initiative steering group was formed and has taken positive steps towards the establishment of the peace institute. This has included setting up a small charity for fundraising purposes and developing the constitution, which includes the aims and objectives and a recommended structure for the peace institute once it has been established. The Initiative has also embarked on a piece of objective research into the military in Wales in order to establish a sound footing for the institute when it comes into existence, and is a partner in the Heritage Lottery-funded 'Wales for Peace' project being headed up by the Welsh Centre for International Affairs.

A work programme of potential projects is being developed for the Institute to take up following its formal launch, which we hope will be in the autumn of 2015, and we are also looking at areas where the future Academi Heddwch Cymru / Wales Peace

Institute can add value to the work of Welsh Government. Other priorities include finalising the constitution, governance and core funding of the new body; and involving potential partners, stakeholders and supporters.

How you can be involved:
A vital part of moving towards setting up a peace institute in Wales will be forming partnerships with bodies in the academic community and civil society, who may be involved in its work through, for example developing joint projects, or nominating the trustees of the Academi / Institute. We envisage that the Academi / Institute will become an important element in Welsh life and an authority on matters relating to peace and human rights in Wales, and beyond, providing information of importance to Welsh Government and to society in general. Your organisation may also be interested in supporting the peace institute financially.

We hope the prospect of setting up the peace institute is of interest to you, and are therefore sending you this pack with important introductory information. We would like to be in touch with you in the coming weeks to discuss further what partnership might involve, and how this could be mutually beneficial.

We look forward to hearing from you, and to setting up a meeting with you to discuss in further detail how we can work together.

Yours faithfully

Jane Harries
Secretary

Menter Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute Initiative

c/o 42 St Patrick's Drive
Bridgend
CF31 1RP

ahc.wpi@gmail.com

077200 87132

ACADEMI HEDDWCH CYMRU/WALES PEACE INSTITUTE

1) EGWYDDORION SYLFAENOL

a) Sefydliad annibynnol yw Academi Heddwch Cymru/Wales Peace Institute (AHC/WPI) sy'n paratoi, yn hyrwyddo ac yn dosbarthu gwybodaeth wrthrychol a thrylwyr ar faterion yn ymwneud â heddwch, cyfiawnder, hawliau dynol a chynaliadwyedd yng Nghymru, y DU a thu hwnt.

b) Bydd yr Academi Heddwch yn ganolfan ragoriaeth a fydd yn cyflwyno gwybodaeth a dadansoddi ffeithiol sy'n ennyn parch ar y materion uchod.

2) NODAU

a) Paratoi gwybodaeth fanwl a fydd yn cyfrannu at ddatblygu cymdeithas fwy cyfiawn, heddychlon, cynaliadwy a chymdeithasol unedig er budd holl bobl a sefydliadau Cymru, gan gynnwys y Llywodraeth, cyrff heddwch a hawliau dynol, a phob sector o'r gymdeithas sifil.

b) Cynnal ymchwil gymhwysol i faterion yn ymwneud â chyfiawnder, heddwch, datrys gwrthdaro, diogelwch a hawliau lleiafrifoedd, naill ai'n uniongyrchol neu i gefnogi canolfannau ymchwil eraill, er budd Cymru a'i phobl, a thu hwnt.

3) AMCANION

a) Rhoi gwybodaeth ffeithiol a chyngor annibynnol i Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill ynghylch effaith eu polisïau a'u gweithredoedd ar gymdeithas yng Nghymru a thu hwnt.

b) Cyfrannu at ddealltwriaeth o hanes Cymru mewn perthynas â heddwch, a'n sefyllfa bresennol mewn cyd-destun byd-eang, drwy gefnogi a gweithio gydag adrannau prifysgolion a cholegau yng Nghymru, cyrff anllywodraethol, Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol, grwpiau cymunedol ac ysgolion.

c) Hyrwyddo a dosbarthu canlyniadau ymchwil drw gyhoeddiadau, adroddiadau, seminarau a darlithoedd.

d) Datblygu deunyddiau sy'n hybu dealltwriaeth o heddwch.

e) Meithrin cysylltiadau gyda sefydliadau heddwch a rhwydweithiau ymchwil eraill ledled y byd er mwyn rhannu gwybodaeth a chanlynadau er budd Cymru a'r gymuned ryngwladol ehangach.

4. STRWYTHUR ARFAETHEDIG

a) Bwrdd y Cyfarwyddwyr (Aelodau)

Y Cyfarwyddwyr yw Ymddiriedolwyr AHC / WPI.
Bwrdd y Cyfarwyddwyr yw offeryn llywodraethu, rheoli a gweinyddu AHC/WPI.
Penodir yr Aelodau am gyfnod o bedair blynedd.

Caiff Cadeirydd y Bwrdd ei ethol i wasanaethu am gyfnod o ddwy flynedd, ac fe'i detholir o gymdeithas sifil Cymru (gweler a) iv) isod). Bydd hyd at ddeunaw o aelodau ar y Bwrdd:

i. Enwebir yn aelod o bob un o'r pleidiau gwleidyddol yn y Cynulliad Cenedlaethol.

ii. Enwebir pedwar aelod academaidd fel sy'n briodol.

iii. Enwebir tri aelod o grwpiau heddwch Cymru.

iv. Enwebir chwe aelod o gymdeithas sifil Cymru.

v. Cyfetholir aelodau fel sy'n briodol.

vi. Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol yn aelod 'ex officio' o'r Bwrdd.

b) Bwrdd y Cyfarwyddwr (prif swyddogaethau)

i. Penodi Cyfarwyddwr Gweithredol, staff ac aelodau'r Cyngor Ymchwil Ymgynghorol.

ii. Dewis Trysorydd o'u plith i oruchwylio ac awdurdodi'r cyfrifon ariannol.

iii. Cymeradwyo a goruchwylio'r systemau rheoli a gweinyddu ar gyfer trefniadaeth a gweithrediad mewnol AHC/WPI

iv. Cymeradwyo a monitro'r gyllideb ddrafft a'r adroddiad blynyddol

v. Cymeradwyo'r cynllun gweithgarwch strategol a blynyddol ar y cyd â'r Cyngor Ymchwil Ymgynghorol

vi. Gosod y canllawiau ar gyfer rheoli a hyrwyddo gweithgareddau AHC/WPI

vii. Sicrhau trefn lywodraethu briodol ar gyfer cyflawni gofynion cyfreithiol a diben elusennol AHC/WPI, fel y nodir yn ei dogfen lywodraethu (y cyfansoddiad).

c) Swyddogaethau'r Cyngor Ymchwil Ymgynghorol

i. Cyhoeddi adroddiadau ar Gynllun Strategol a Chynllun Gweithgarwch Blynyddol AHC/WPI, y mae'n rhaid eu cyflwyno i Fwrdd y Cyfarwyddwyr eu cymeradwyo

ii. Bod yn gorff ymgynghorol o ran rhoi cyfarwyddyd ysgolheigaidd a chefnogi gwaith ymchwil AHC/WPI

iii. Goruchwylio hynt holl brosiectau ymchwil AHC/WPI

d) Aelodau'r Cyngor Ymchwil Ymgynghorol

Mae deg aelod ar y Cyngor Ymchwil Ymgynghorol, a benodir gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr yn unol â'r meini prawf canlynol:

i. Aelodau o adrannau prifysgolion a cholegau yng Nghymru ac ymchwilwyr cydnabyddedig mewn maes astudio perthnasol (e.e. cyfraith ryngwladol, hawliau dynol ac astudiaethau heddwch)

ii. Dau neu dri o ysgolheigion uchel eu parch ym maes heddwch a hawliau dynol yn y DU ac yn rhyngwladol.

ACADEMI HEDDWCH CYMRU/WALES PEACE INSTITUTE

DRAFT CONSTITUTION

1) FOUNDING PRINCIPLES

a) Academi Heddwch Cymru/Wales Peace Institute (AHC/WPI) is an independent organisation which produces, promotes, and disseminates objective and rigorous information, analysis and materials on matters relating to peace, justice, human rights and sustainability in Wales, the UK and beyond.

b) The Peace Institute will be a centre of excellence and provide respected factual information and analysis on the above matters.

2) AIMS

a) To produce in depth information that will contribute to the development of a more just, peaceful, sustainable and socially cohesive society for the benefit of all Welsh people and institutions including Government, peace and human rights bodies, and all sectors of civil society.

b) To conduct applied research into issues relating to justice, peace, conflict resolution, security and minority rights issues either directly, or in support of existing research centres, for the benefit of Wales and the people of Wales, and beyond.

3) OBJECTIVES

a) To provide independent factual information and advice to the Welsh Government and other stakeholders concerning the impact of their policies and actions on society in Wales itself and beyond.

b) To contribute to an understanding of the history of Wales in relation to peace, and our current situation in a global context, by working with and supporting university and college departments in Wales, non-governmental organisations, Welsh government, local government, community groups and schools.

c) To promote and disseminate the results of research through publications, reports, seminars and lectures.

d) To develop materials which promote an understanding of peace.

e) To establish relations with other peace institutes and research networks across the world in order to share knowledge and pool results for the benefit of Welsh society and the wider international community.

4) PROPOSED STRUCTURE

a) Board of Directors (Members)

The Directors are the Trustees of AHC / WPI.
The Board of Directors is the instrument of governance, management and administration of the AHC/WPI. Members are appointed for a period of four years.

The Chair of the Board is elected to serve for a period of two years and is selected from Wales civil society (see a) iv) below). The Board can have up to eighteen members:

i. One member nominated by each of the political parties who make up the Welsh Assembly

ii. Four academic members nominated as appropriate

iii. Three nominated from Wales peace groups

iv. Six nominated from Wales civil society

v. Co-opted members as and when appropriate.

vi. The Executive Director serves as an 'ex officio' member of the Board.

b) Board of Directors (principal functions)

i. To appoint the Executive Director, staff and the members of the Advisory Research Council.

ii. To choose a Treasurer from amongst their number to oversee and authorise the financial accounts.

iii. To approved and oversee the management and administrative systems for the internal organisation and operation of the AHC/WPI

iv. To approve and monitor the draft Budget and the annual report

v. To approve and monitor the strategic and annual activity plan in consultation with the Advisory Research Council

vi. To establish the guidelines for the management and promotion of the activities of the AHC/WPI

vii. To ensure proper governance in fulfilling the legal requirements and charitable purpose of the AHC/WPI as set out in its governing document (Constitution).

c) Advisory Research Council functions

i. To issue reports on the Strategic Plan and the Annual Activity Plan of the AHC/WPI which must be submitted to the Board of Directors for approval

ii. To act as a consultative body in giving scholarly direction and in supporting the research activities of the AHC/WPI

iii. To oversee progress on all research projects of the AHC/WPI

d) Advisory Research Council members

The Advisory Research Council has up to ten members appointed by the Board of Directors in accordance with the following criteria:

i. Members from University and college departments in Wales and other recognised researchers in a relevant field of study (e.g. International Law, Human Rights and Peace Studies)

ii. Two or three respected academics in the field of Peace and Human Rights from across the UK and internationally.

Argymhelliad a Dyfyniadau o Adroddiad Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Academi Heddwch Cymru (P-03-262)

Hydref 2013

www.assembly.wales/Laid%20Documents/CR-LD9534%20-%20Report%20by%20the%20Petitions%20Committee%20on%20a%20Academi%20Heddwch%20Cymru%20-%20Wales%20Peace%20Institute%20-24102013-251276/cr-ld9534-e-Cymraeg.pdf

Argymhelliad 1.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn hwyluso trafodaethau pellach rhwng rhanddeiliaid o fewn y gymuned academaidd a chymdeithas sifil i sicrhau y gellid gwneud gwaith cwmpasu pellach ar Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute.

(tudalen 19)

Dyfyniadau:

Rhagair y Cadeirydd (tudalen 5):

'Rydym yn cefnogi'r egwyddor o sefydlu Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute ...Yn ein barn ni, gallai corff o'r fath helpu i gyfrannu at ddatblygu heddwch yn ei ystyr mwyaf eang yng Nghymru a byddai'n cyfrannu at waith y Cynulliad a'r Llywodraeth.'

Barn y Pwyllgor (Tudalen 18):

42. …… ar ôl ystyriaeth y dystiolaeth, rydym yn cefnogi'r egwyddor o sefydlu sefydliad heddwch yng Nghymru.

43. Mae hyn oherwydd ein bod yn teimlo y gallai corff o'r fath ychwanegu gwerth at waith y Cynulliad a chymdeithas sifil yn ehangach. Rydym yn cefnogi awgrym y deisebwyr y dylai cyrff fel Cynnal Cymru gynnig model ar gyfer sefydlu sefydliad o'r fath a sut y gallai helpu i gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu polisi. Rydym yn cytuno â'r deisebwyr y dylid ystyried heddwch yn yr ystyr mwyaf eang ac er nad oes gan y Cynulliad bwerau uniongyrchol mewn perthynas â materion milwrol ac amddiffyn, dylid ystyried heddwch yn yr ystyr mwyaf eang.

44. Ar ôl gweld sut y gall hyn weithio yn y lleoedd hynny (yn enwedig yn achos Sefydliad Heddwch Rhyngwladol Catalonia) lle nad yw cyfrifoldeb dros faterion milwrol ac amddiffyn wedi'i ddatganoli, rydym yn teimlo bod dadl gref o blaid Cymru'n chwarae rôl flaenllaw ac yn cael rhyw fath o sefydliad heddwch a allai ystyried materion sy'n ymwneud ag heddwch yn fwy manwl.

45. Hefyd, er bod llawer o waith yn cael ei wneud yng Nghymru ar heddwch, mae dadleuon y deisebwyr wedi ein darbwyllo bod angen i'r gwaith hwn gael ei ddwyn ynghyd a'i anfon i'r gynulleidfa fwyaf posibl a bod angen ymgysylltu'n ehangach â chymdeithas sifil.

Recommendation and Quotes from the Report of the National Assembly for Wales Petitions Committee on the Welsh Peace Institute (P-03-262)

October 2013

www.assembly.wales/Laid%20Documents/CR-LD9534%20-%20Report%20by%20the%20Petitions%20Committee%20on%20a%20Academi%20Heddwch%20Cymru%20-%20Wales%20Peace%20Institute%20-24102013-251276/cr-ld9534-e-English.pdf

Recommendation 1.

We recommend that the Welsh Government facilitates further discussions between the interested parties within both the academic community and civic society to enable further scoping work to be undertaken on a Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute.

(page 19)

Quotes:

Chair's foreword (page 5):

'We are supportive of the principle of establishing an Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute….. It is our view that such a body could help contribute to the development of peace in its broadest sense within Wales, and would contribute to both the work of the Assembly and the Government.'

The Committee's views (Page 18):

42. …… having considered the evidence we are supportive of the principle of the establishment of a peace institute being established in Wales.

43. This is because we feel that such a body could add value to both the Assembly's work, and the wider civic society. We are supportive of the petitioners' suggestion that bodies such as Cynnal Cymru could provide a template as to what such an institute could look like, and how it could help inform policy development. We agree with the petitioners that peace should be considered in the broadest terms, and that while the Assembly does not have direct powers in relation to the military and defence, peace should be considered in the widest sense.

44. Having seen how it can work in those places (especially with the ICIP*) where there is no devolved responsibility for military and defence, we feel that there is a strong argument for Wales being at the forefront, and having some form of peace institute which could consider issues relating to peace in more detail.

45. We are also persuaded by the petitioners' arguments that while there is a lot of work currently being undertaken within Wales on peace, there is a need for this work to be brought together, for it to be disseminated out to the widest audience, and for a broader engagement with civic society.

**ICIP = International Catalan Institute for Peace*

Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute

Ymchwil ynghylch "Presenoldeb yr Ochr Filwrol a'i Dylanwad yng Nghymru" – Llinell sylfaen ar gyfer gwaith yn y dyfodol

Trosolwg o'r Ymchwil

1. Disgrifiad o'r Ymchwil:

Mae hwn yn arolwg cwbl wrthrychol ac annibynnol o'r Ochr Filwrol yng Nghymru, gan gynnwys**:**

- Safleoedd milwrol, gan gynnwys meysydd tanio a safleoedd hyfforddi, dociau gyda glanfeydd arbennig a chaniatadau ar gyfer y lluoedd arfog, swyddfeydd recriwtio, barics, y fyddin diriogaethol, a safleoedd cadlanciau'r fyddin – sy'n eiddo i'r Weinyddiaeth Amddiffyn ac yn cael eu rhedeg ganddi. Niferoedd, ble maen nhw, pa mor aml y'u defnyddir a faint sy'n cael eu cyflogi – efallai faint o swyddi ymysg pobl gyffredin sy'n gysylltiedig â'r safleoedd

- Y defnydd o dir ac awyrofod, gan gynnwys awyrennau milwrol yn hedfan yn isel.

- Nifer y catrodau Cymreig a ble maen nhw, a phwy sy'n defnyddio Cymru ar gyfer hyfforddi milwrol.

- Recriwtio milwrol – ble, sut a phryd mae hyn yn digwydd – hysbysebu mewn ardaloedd penodol.

- Y fyddin mewn ysgolion – nawdd, gweithgareddau allgyrsiol a recriwtio, cyfraniad at gynlluniau Gwobr Dug Caeredin etc.

- Y fyddin mewn cymunedau – gan gynnwys codi arian ar gyfer elusennau ôl-wrthdaro, Cadlanciau'r Môr, Geidiau, Sgowtiaid etc.

- Buddsoddiad cyhoeddus uniongyrchol ac anuniongyrchol – gan y Cynulliad a San Steffan – mewn ymchwil, datblygu a gweithgynhyrchu milwrol – mewn cwmnïau preifat yn ogystal â sefydliadau addysgol yng Nghymru.

- Gweithgynhyrchu arfau a chwmnïau sy'n gysylltiedig â'r fyddin yng Nghymru – gan gynnwys cwmnïau electroneg bach mewn trefi bach ledled Cymru, yn ogystal â chwmnïau sy'n adeiladu cyrff ar gyfer teclynnau milwrol (gweithgynhyrchu cyrff dronau yn Noc Penfro etc.) ac wrth gwrs 'profi' caledwedd a meddalwedd at ddefnydd milwrol.

- Canrannau trethi'r Cymry sy'n cael eu gwario ar yr ochr filwrol ac ar ddefnydd a datblygu milwrol.

2. Canlyniadau'r prosiect:

- Ymchwil ffeithiol ac annibynnol o ansawdd uchel a fydd yn cynnig gwybodaeth fanwl am gyflwr yr ochr filwrol yng Nghymru yn 2015. Bydd yr adroddiad hwn ar gael i'r cyhoedd, y wasg, yr ochr filwrol a llunwyr polisi yng Nghymru.

- Caiff yr adroddiad uchod ei lunio yn enw Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute (AHC / WPI).

- Bydd y prosiect yn hwyluso cyswllt rhwng pwyllgor yr academi heddwch a sefydliadau academaidd yng Nghymru.

- Caiff yr adroddiad ei lansio mewn cynhadledd gyhoeddus – gan gynnwys siaradwyr o'r llywodraeth, y fyddin a chyrff academaidd eraill.

- Bydd yr adroddiad yn ffordd ddefnyddiol i Bwyllgor yr Academi Heddwch daflu goleuni ar lle mae troi eu sylw nesaf o ran ymdrech ac adnoddau.

3. Amserlen y Prosiect:

- **Ionawr 2015** – y gwaith ymchwil yn cychwyn yn swyddogol
- **Diwedd Mehefin 2015** – Cyflwyno'r adroddiad terfynol i'w adolygu gan gymheiriaid a'i gyfieithu
- **Gorffennaf 2015** – Cyfieithu ac argraffu'r adroddiad
- **Awst 2015** – lansio'r adroddiad ar Faes yr Eisteddfod ym Meifod
- **Medi – Hydref 2015** – cynhadledd (neu gynadleddau yn y Gogledd a'r De) i lansio'r adroddiad i'r cyhoedd – gyda siaradwyr o'r llywodraeth, y fyddin a sefydliadau academaidd.
- **Tachwedd 2015** – cyhoeddi'r adroddiad.

Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute

Research into "The Extent of Military Presence and its Influence in Wales" – A Baseline for future work.

Overview of the Research

1. Description of the Research:

This is a totally objective, independent survey of the Military in Wales to include**:**

- Military sites, including ranges and training areas, docks with special berths and permissions for the military, recruiting offices, barracks, territorial army and army cadet bases – as owned and run by the MoD. Numbers, where they are, how frequently used and how many employed – perhaps how many civilian jobs connected to the sites

- The use of land and airspace, including low-flying military aircraft.

- The number of Welsh regiments and where they are based, and who uses Wales for military training.

- Military Recruitment – where, how and when it takes place – advertising 'targeted areas'.

- Military involvement in schools – sponsorship, out of class activities and recruitment, involvement in Duke of Edinburgh Award schemes etc.

- Military involvement in communities – including fundraising for post-conflict charities, Sea Scouts, Girl Guides, Boy and Girl Scouts etc.

- Public Investment directly and indirectly - by the Assembly and Westminster - in military research, development and manufacture - in private companies as well as educational establishments in Wales.

- Armament manufacturing, and military- connected companies in Wales – to include small electronics firms in small towns across Wales as well as for example companies involved in building body work for military applications (drone –body manufacture in Pembroke Dock etc.) and of course 'testing' of hard and software for military use.

- Percentages of taxes from the people of Wales spent elsewhere on the military and on military deployment and development.

2. Outcomes of the project:

- A high-quality, independent, factual piece of research which will give detailed information about the state of the military in Wales in 2015. This report to be generally available to the public, the press, the military and policy makers in Wales.

- The above report will be produced in the name of Acadmi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute (AHC / WPI).

- The project will facilitate liaison between the peace institute committee and academic institutions in Wales.

- The report will be launched at a public conference – including speakers from the government, the military and other academic bodies.

- The report will be a useful tool for the Peace Institute Committee in shedding light on where best to next direct their energies and resources.

3. Project Timeline:

- **January 2015** – research work officially commences
- **End June 2015** – Final report submitted for peer review and translation
- **July 2015** –Translation and printing of report
- **August 2015** – report launched on Eisteddfod field at Meifod
- **September – October 2015** - a conference (or conferences in North & South Wales) to launch the report publically – with speakers from the government, military and academic institutions.
- **November 2015** - report becomes publicly available.

Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute

A wyddoch chi...

- Bod **menter ar waith** i sefydlu Academi Heddwch yng Nghymru, yn debyg i rai sy'n bodoli ledled y byd?
- Bod y fenter hon wrthi'n gwneud **ymchwil** i'r ochr filwrol yng Nghymru, a'i bod yn un o bartneriaid y prosiect 'Cymru dros Heddwch / Wales for Peace' sy'n cael ei ariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri?
- Bod **elusen fach** 'Menter Academi Heddwch Cymru/Wales Peace Institute Initiative' wedi cael ei sefydlu i gynllunio a gwneud yr holl waith sydd ei angen i wireddu a lansio Academi Heddwch Cymru?
- Bod **rhaglen waith** o brosiectau posibl yn cael ei datblygu i'r Academi ei dilyn wedi iddi gael ei lansio'n ffurfiol yn hydref 2015?

Beth fyddai Academi Heddwch Cymru yn ei wneud?

Prif nodau Academi Heddwch Cymru fyddai:

c) paratoi gwybodaeth fanwl, gwrthrychol ac annibynnol er mwyn helpu i ddatblygu cymdeithas fwy cyfiawn, cynaliadwy a chymdeithasol unedig er budd holl bobl a sefydliadau Cymru, gan gynnwys y Llywodraeth, cyrff heddwch a hawliau dynol, a phob sector o'r gymdeithas sifil.

d) cynnal ymchwil gymhwysol i faterion yn ymwneud â chyfiawnder, heddwch, datrys gwrthdaro, diogelwch a hawliau lleiafrifoedd, naill ai'n uniongyrchol neu i gefnogi canolfannau ymchwil eraill, er budd Cymru a'i phobl, a thu hwnt.

Sut allwch chi helpu?

- Gallwch **ymuno â'n rhestr aelodau** a chael gwybodaeth reolaidd am hynt ein gwaith. Er mwyn gwneud hyn, cysylltwch â'r Ysgrifennydd yn ahc.wpi@gmail.com neu 01656 768910 / 077200 87132, gan roi eich manylion cyswllt – enw, cyfeiriad, e-bost a rhif ffôn.

- Os gallwch **wneud cyfraniad ariannol** i helpu i sefydlu'r Academi Heddwch, gallwch lenwi'r ffurflen isod a'i hanfon at ein Trysorydd. **Diolch!**

✂……

Cefnogaeth ar gyfer Menter Academi Heddwch Cymru

At: Mustafa Megrahi, 11 Stryd Maerdy, Caerdydd. CF11 6QT

ENW ……..

CYFEIRIAD …….

COD POST …….. FFÔN……..

Rwy'n amgáu siec am £…… i Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute

NEU rwyf wedi trefnu i drosglwyddo £….. yn uniongyrchol i Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute, Rhif cyfrif 21172860, Banc Lloyds (Cod Didoli 77/ 62/ 10).

Llofnod: …… Dyddiad:…….

Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute

Did you know…..

- That there's an **active initiative** to establish a Peace Institute in Wales similar to those which exist in many countries across the globe?
- That this initiative is presently conducting **research** into the military in Wales, and is a partner in the Heritage Lottery funded 'Cymru dros Heddwch / Wales for Peace' project?
- That a **Small Charity** entitled 'Menter Academi Heddwch Cymru/Wales Peace Institute Initiative' has been set up to plan and to carry out all the necessary work to bring into being and to launch a fully-fledged Peace Institute for Wales?
- That **a work programme** of potential projects is being developed for the Institute to take up following its formal launch in the autumn of 2015?

What would a Wales Peace Institute do?

The **main Aims** of a Wales Peace Institute would be to:

e) produce objective and independent in-depth information that will contribute to the development of a more just, peaceful, sustainable and socially cohesive society for the benefit of all people and institutions in Wales including Government, peace and human rights bodies, and all sectors of civil society.

f) conduct applied research into issues relating to justice, peace, conflict resolution, security and minority rights issues either directly, or in support of existing research centres, for the benefit of Wales and the people of Wales, and beyond.

How can you help?

- You can **join our membership list** and receive information and regular updates of progress. To do this, please contact the Secretary at: ahc.wpi@gmail.com or 01656 768910 / 077200 87132, providing your contact details – name, address, e-mail and phone number.

- If you can, please **make a financial contribution** to help to get the Peace Institute established by filling in the form below and sending it to our Treasurer. **Thank you!**

✂……

Support for the Wales Peace Institute Initiative

To: Mustafa Megrahi, 11 Mardy Street, Cardiff. CF11 6QT

NAME ……..

ADDRESS …….

POST CODE …….. TELEPHONE ……..

I enclose a cheque for £…… made out to Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute

OR I have arranged for the direct transfer of £….. to Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute, Account no. 21172860, Lloyds Bank (Sort Code 77/ 62/ 10).

Signed: …… Date:…….

Aelodau Grŵp Llywio Menter Academi Heddwch Cymru

Wales Peace Institute Initiative Steering Group Members

Chris Jones

David Mellor

Gwyn Griffiths

Jane Harries (Ysgrifennydd / Secretary)

Jill Evans ASE / MEP (Cadeirydd / Chair)

Jon Plumpton

Mustafa Megrahi (Trysorydd / Treasurer)

Robin Gwyndaf

Tony Young

Er mwyn cysylltu â'r pwyllgor, anfonwch e-bost at / To contact the committee, please send an e-mail to: ahc.wpi@gmail.com